# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Tŷ Llandaff**

**Heol Conwy**
**Caerdydd**
**CF11 9NT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

6 a 9 Medi 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Tŷ Llandaff

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Tŷ Llandaff Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 70 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn a'u bod yn rhannu perthynas dda â'r staff gofal. Mae'r bobl yn gwneud pethau maen nhw'n eu mwynhau a gan amlaf mae ganddyn nhw weithgareddau i edrych ymlaen atynt. Dywedodd y bobl wrthym yr hoffent wneud mwy. Mae'r rheolwyr yn cymryd camau ar unwaith i sicrhau bod rhaglen o weithgareddau dyddiol. Gwelsom y staff gofal yn bod yn garedig, yn ofalgar ac yn barchus tuag at y bobl.

Mae cynlluniau gofal personol ar waith, a dilynir y rhain i sicrhau bod canlyniadau a nodwyd yn cael eu bodloni. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gofal yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion y bobl, ond nid yw hyn yn gyson i bawb. Mae systemau'n cael eu diweddaru i sicrhau bod pawb yn cael adolygiad rheolaidd o'u hanghenion. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a chael mynediad at wasanaethau iechyd.

Mae Tŷ Llandaff yn cynnig amgylchedd croesawgar a chyfeillgar. Gwelsom rannau o'r cartref sy'n dangos arwyddion o draul. Mae'r rheolwyr yn gweithredu trwy eu cynlluniau gwella i ailosod carpedi ac ailaddurno ardaloedd i sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n addas ar gyfer y bobl sy'n byw yno.

Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda ac mae'r rhan fwyaf yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd. Mae'r staff rheoli a nyrsio yn rhoi arweiniad clir i'r staff gofal. Mae'r tîm rheoli yn cynnal goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth glir o'r gwasanaeth. Maent yn wybodus, yn weladwy ac yn gefnogol yn eu rolau.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gwneud dewisiadau am eu bywydau o ddydd i ddydd ac mae ganddynt ychydig o ffyrdd y gallant fynegi eu barn a'u safbwyntiau. Hoffai'r bobl a'u cynrychiolwyr gael mwy o wybodaeth am adolygiadau o gynlluniau gofal a diweddariadau am y cartref. Mae cynlluniau gofal y bobl yn fanwl, a chaiff hoff bethau a chas bethau personol eu cofnodi a darperir ar eu cyfer. Dylid rhoi cyfle i'r bobl gyfrannu at eu hadolygiad er mwyn dylanwadu ar sut y cânt eu cefnogi.

Dywedodd cynrychiolwyr a'r staff gofal wrthym eu bod yn gwybod sut i fynegi pryder ac yn ymddiried y byddir yn gweithredu ar bryderon. Dywedodd cynrychiolwyr wrthym fod rheolaeth yn weladwy ac ar gael iddynt. Dywedodd y bobl wrthym y byddent yn teimlo'n hyderus i siarad â'r staff os nad oeddent yn fodlon ar y gofal y maent yn ei dderbyn.

Mae cynllun a chyfleusterau'r cartref yn cefnogi llesiant y bobl ac mae ganddo fannau lle gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu. Mae dodrefn wedi'u haddasu ar gyfer y rhai sydd angen cymorth ychwanegol i'w galluogi i gymryd rhan yn ardaloedd cymunol y cartref. Mae'r cartref yn ddiogel, ac mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod ymweliadau'n ddiogel.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud dewisiadau dyddiol ac i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn elwa ar ddewis o brydau iach a maethlon. Mae'r bobl yn dewis p'un a ydynt am fwyta eu prydau bwyd yn yr ardal fwyta i gymdeithasu ag eraill, neu ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd eu hunain. Mae'r bobl yn cael cymorth staff pan fo angen ond dylid ymgysylltu'n well â'r bobl sy'n fwy annibynnol er mwyn annog eu cymeriant maethol a nodi unrhyw newidiadau.

Mae'r bobl yn ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r cartref yn darparu llyfrau Cymraeg drwy'r llyfrgell leol. Byddai'r bobl ac ymwelwyr yn elwa o gael arwyddion dwyieithog o amgylch y cartref, i staff Cymraeg eu hiaith fod yn weladwy ac i wybodaeth am y gwasanaeth gael ei gynnig yn Gymraeg. Ni allwn fod yn sicr bod anghenion diwylliannol, ysbrydol a chrefyddol y bobl yn cael eu diwallu'n llawn.

Gall y bobl fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn cael ei lywodraethu a'i arwain yn glir. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gofyn am farn y bobl yn ystod ymweliadau â'r cartref. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli yn rhagweithiol ac yn weladwy yn y cymunedau. Gwelsom nhw'n garedig ac yn sensitif â'r bobl ac maent yn wybodus ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Rhoddir cytundeb gwasanaeth i'r bobl, sy'n eu hysbysu o'r gofal a'r cymorth y byddant yn ei gael. Mae angen diweddaru'r datganiad o ddiben i adlewyrchu'n llawn y gwasanaeth a ddarperir i'r bobl.

Mae cynlluniau gofal yn fanwl, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rhoi gwybodaeth i'r staff gofal am y ffordd orau o gefnogi'r person. Mae canlyniadau personol y rhan fwyaf o'r bobl yn cael eu bodloni ond canfuom rai achosion pan oedd cyfleoedd wedi'u colli i sicrhau bod y bobl yn cael gofal cyson sy'n adlewyrchu eu hanghenion. Cymerodd y rheolwyr gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae rhai pobl, ond nid pawb, yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd adolygu eu cynlluniau gofal. Dylai'r cyfarfodydd fod yn fanwl i sicrhau bod barn a chanlyniadau'r bobl yn cael eu nodi.

Mae gofal yn cael ei ddarparu i'r bobl mewn ffordd sensitif, caredig a pharchus. Dywedodd y staff gofal wrthym fod tîm staff cyson. Mae'r bobl yn elwa ar barhad gofal a chymorth gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Pan ddefnyddir staff asiantaeth, maent yn cael sesiwn sefydlu a chymorth i ddod i adnabod y bobl a'u hanghenion gofal. Dywedodd perthnasau wrthym “*Rwy'n ymddiried yn y staff*” a “*Rwy'n gweld fy nheulu yn rheolaidd*”

Mae'r bobl yn cael cynnig prydau cartref sy'n faethlon, a gallant gael byrbrydau a diodydd trwy gydol y dydd. Mae ystafelloedd bwyta yn y ddwy gymuned ac mae'r cartref yn darparu bwydlen ddyddiol amrywiol. Mae prydau amgen ar gael i'r bobl. Mae pwysau rhai pobl yn cael ei fonitro, ac mae systemau ar waith i weithredu ar unrhyw bryderon. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gyda'u prydau, ond byddai'r bobl sy'n fwy annibynnol yn ystod amser bwyd yn elwa ar ryngweithio gyda’r staff i annog cymeriant maethol ac i roi profiad amser bwyd gwell ar y cyd iddynt.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gymryd eu meddyginiaeth yn ddiogel. Mae system drylwyr ar waith i gofnodi a storio meddyginiaeth. Mae archwiliadau rheolaidd ar waith i gynnal goruchwyliaeth o reolaeth meddyginiaethau. Mae gan y bobl fynediad at weithwyr iechyd proffesiynol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn gynnes, yn olau ac yn awyrog. Mae rhai ystafelloedd a allai fod yn beryglus i'r bobl yn briodol ddiogel i'w hamddiffyn rhag niwed. Mae offer ar gael ledled y cartref i gefnogi'r bobl i drosglwyddo'n ddiogel. Gwelsom staff yn y lolfa a'r ystafell fwyta yn defnyddio'r offer yn ddiogel ac yn siarad â'r bobl i wneud iddynt deimlo'n gartrefol.

Mae ystafelloedd y bobl yn eang a chyda gwedd bersonol arnynt gydag eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae ystafelloedd ymolchi en suite yn eang, yn cynnwys offer da, ac yn lân. Mae yna gyfleusterau cawod a bath wedi'u haddasu i ddarparu ar gyfer dewisiadau'r bobl. Mae rheolwyr yn bwriadu cwblhau asesiad risg i amddiffyn y rhai sy'n mwynhau cerdded o amgylch y gymuned i sicrhau nad ydynt mewn perygl wrth wneud hynny. Gwelsom rai ystafelloedd gwely a oedd â marciau traul ar ddodrefn, gosodiadau ac offer. Mae'r rheolwyr yn cymryd camau ar unwaith i wneud y gwaith atgyweirio neu amnewid angenrheidiol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, canfuom fod y carpedi yn y mannau cymunol wedi'u staenio'n helaeth ac roedd angen rhoi sylw i'r addurn a disgwyliwn i hyn gael sylw.

Mae trefniadau rheoli heintiau effeithiol ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel ac mae’r staff yn cael digon o gyfarpar diogelu personol sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol.

Mae'r ardaloedd cymunol yn gartrefol ac yn cael eu defnyddio'n dda gan y bobl. Gwelsom rai pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio cadair arbenigol i fwynhau cwmni eraill yn y lolfa. Mae digon o seddi i bobl gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau ymweld â chymunedau eraill yn y cartref i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Dywedodd rhai pobl wrthym fod ganddynt ddewis pryd yr hoffent dreulio amser yn y lolfa gymunol, ond dywedodd eraill wrthym eu bod yn dewis aros yn eu hystafell.

Mae gardd batio fach y tu allan. Mae cynlluniau i'r cartref wneud yr ardd flaen yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio.

Mae'r darparwr yn defnyddio offeryn monitro amgylcheddol newydd sy'n ystyriol o bobl â dementia i'w hysbysu am arferion gorau wrth wneud newidiadau i'r amgylchedd i gefnogi canlyniadau gwell i'r bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli yn weladwy, yn hawdd mynd atynt, ac yn gefnogol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn ymateb i bryderon. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn system ofal electronig sy'n galluogi goruchwyliaeth a llywodraethu clir ac mae'n defnyddio'r system i fonitro darpariaeth gofal dyddiol yn well. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau rheolaidd â'r cartref i geisio barn y bobl ac i roi gwybod iddynt am ansawdd y gwasanaeth. Mae adroddiadau gofal ansawdd ar gael i asesu a gwerthuso ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn dangos gwelliannau yn y gwasanaeth.

Mae darparwr y gwasanaeth yn annog adborth gan y staff, y bobl, cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol drwy arolygon a holiaduron trwy gydol y flwyddyn. Gwelsom fod archwiliadau mewnol manwl ar waith i fonitro a gwerthuso pob agwedd ar y gwasanaeth sy'n hysbysu'r unigolyn cyfrifol yn dda. Mae gan y rheolwyr dros dro fynediad at yr unigolyn cyfrifol a chânt gymorth da. Mae'r tîm rheoli yn weladwy yn y gymuned, gwelsom nhw'n cefnogi staff ac yn rhoi arweiniad, roeddent yn ymgysylltu â'r bobl mewn ffordd sensitif a gofalgar. Anogir y bobl i leisio eu barn mewn cyfarfodydd preswylwyr. Mae Tŷ Llandaff wedi gwella patrwm y cyfarfodydd i gynnwys mwy o adborth gan y bobl. Cynhelir cyfarfodydd cynrychiolwyr i geisio eu barn a rhannu gwybodaeth. Mae'r cyfarfodydd yn cynnig hyblygrwydd o ran amserau cyfarfodydd i annog mwy o gyfranogiad.

Mae'r bobl yn elwa ar dîm staff cyson sy'n deall eu cyfrifoldebau'n dda. Mae gostyngiad sylweddol yn y defnydd o staff asiantaeth. Mae sesiynau goruchwylio'r staff gofal yn gyfredol gan fwyaf ac mae'r tîm nyrsio yn cael sesiynau goruchwylio clinigol gyda pherson priodol. Mae systemau cadarn ar waith i sicrhau bod cymwyseddau clinigol yn cael eu cynnal. Mae cofnodion hyfforddiant y staff yn gyfredol, a rhoddir cyfleoedd i'r staff ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy hyfforddiant ychwanegol. Mae recriwtio'n cael ei adolygu'n gyson a'i addasu i ymateb i anghenion ac amgylchiadau newidiol yn y gwasanaeth. Dywedodd y tîm staff wrthym fod cyswllt rheolaidd â'r rheolwr a bod y rheolwyr *"Yn barod bob amser i helpu ar y llawr*". Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt fynediad at gynlluniau gofal a chofnodion gofal dyddiol a bod y cyfathrebu yn well nag yr oedd. Mae'r staff yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd dyddiol i drafod gofal a chymorth. Dylai'r staff gael y cyfle i gyfarfod ar y cyd yn rheolaidd i rannu eu barn a chael gafael ar wybodaeth. Gwelsom fod gan y tîm staff agwedd gadarnhaol at y cynnydd a wneir gan y tîm rheoli a dywedwyd wrthym "*Rwy'n mwynhau gweithio yma*" a "*Roedd fy nghyfnod sefydlu yn drylwyr"* Siaradodd y staff â hoffter am y bobl sy'n byw yn y cartref.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| 44 | Gosod carpedi newydd ac ailaddurno ardaloedd i sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n addas ar gyfer y bobl sy'n byw yno. | Newydd |
| 16 | Sicrhau bod y bobl a chynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad tri mis o’r cynllun gofal a chymorth. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 31/10/2022